



# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Papur Testun

Awst 2018

### Papur Testun 6: yr Amgylchedd Naturiol

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: [www.conwy.gov.uk/cdlln](http://www.conwy.gov.uk/cdlln) Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Pwrpas y Papur Testun hwn.....	4
3. Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI).....	4
3.1 Cenedlaethol.....	4
3.2 Rhanbarthol – dim newidiadau i bolisi .....	6
3.3 Rhanbarthol – dim newidiadau i bolisi .....	6
4. Polisi CDLI – y Sefyllfa Bresennol .....	6
5. Canfyddiadau AMB y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu .....	7
6. Sylfaen Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddarau .....	7
7. Polisiâu a Chynigion Defnydd Tir Posibl.....	8
8. Sylfaen Dystiolaeth bellach yn angenrheidiol .....	8
9. Casgliad.....	9
Atodiad 1 – Polisiâu cyfredol i'w hadolygu.....	10

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn anad dim arall yn gynllun ar gyfer y defnydd o dir sy'n nodi cyfleoedd i ddatblygu ar safleoedd penodol mewn ymateb i anghenion y gymuned am fwy o dai, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn ceisio cadw, diogelu a gwella lle bo'n briodol, yr agweddau hynny o'r amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n bwysig i ddiffinio ansawdd a sensitifrwydd y lleoedd yr ydym yn eu gwerthfawrogi, eu mwynhau, yn symud drwyddynt ac yn byw ynddynt. Prif nod y CDLI fydd darparu datblygiad cynaliadwy.

Mae'r CDLI yn fodd i'r Cyngor ddiffinio ei brif flaenoriaethau o ran twf a datblygiad a bydd yn darparu fframwaith parhaus o bolisiau i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## 2. Pwrpas y Papur Testun hwn.

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun a luniwyd i hysbysu cynhyrchiad Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN). Nod y papurau testun yw dehongli'r dystiolaeth a'r canllawiau perthnasol sy'n ymwneud â'r testun dan sylw ac adnabod y prif faterion y bydd angen i'r Cynllun roi sylw iddynt, yn ogystal â chymau polisi posibl i'w cynnwys ynddo. Mae pob un o'r papurau testun wedi'u llunio yn seiliedig ar dystiolaeth fanwl yn deillio o Bapurau Cefndir y CDLI (dogfennau technegol sy'n ffurfio sylfaen dystiolaeth y CDLI). Mae papurau testun wedi'u dylunio i fynd i'r afael â meysydd allweddol y rhoddir sylw iddynt ar hyn o bryd yn y CDLI sydd wedi'i fabwysiadu a chrynhoi data technegol o'r Papurau Cefndir er mwyn cyflwyno data mewn ffordd symlach ar gyfer darllenwyr. Mae papurau testun yn sefydlu llinell sylfaen ac yn dynodi'r prif faterion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol ac y bydd angen i'r CDLIN roi sylw iddynt.

Bwriad y Papurau Testun yw rhoi cyfle cynnar i randdeiliaid a'r cyhoedd gael mewnbwn i'r Cynllun. Mae'r papur testun yn trafod y prif faterion sy'n berthnasol i'r Amgylchedd Naturiol.

## 3. Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI)

### 3.1 Cenedlaethol

Darperir rheolaeth cynllunio ar gyfer yr amgylchedd naturiol mewn amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth ac arweiniad. O ran y ddeddfwriaeth sylfaenol, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer rheoli datblygiad sy'n effeithio ar yr amgylchedd a'r dirwedd naturiol a'r fframwaith sy'n galluogi cadw rheolaeth ar hyn.

### Polisi Cynllunio Cymru Drafft (Argraffiad 10, 2018)


Gellir gweld y Polisi Cynllunio Lleol ym Mholisi Cynllunio Cymru, Pennod 5. Yn ymwneud â'r thema Mannau Unigryw a Nodedig, fe'i atodir â Nodiadau Cyngor Technegol (TAN); cyngor trefniadol a roddir mewn cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi. Ni chaiff Polisi ac Arweiniad Cynllunio Lleol ei ailadrodd drwy'r CDLI, ond mae'n rhaid ei ystyried wrth reoli datblygiad a'r defnydd o dir er budd y cyhoedd ac er mwyn cyfrannu at wireddu datblygiad cynaliadwy. Mae thema Mannau Unigryw a Naturiol testunau'r polisi cynllunio yn ymwneud â:

Tirwedd, yr amgylchedd hanesyddol, bioamrywiaeth a chynefinoedd, nodweddion arfordirol, ansawdd aer, seinwedd, gwasanaethau dŵr, llifogydd a risgiau amgylcheddol (arwyneb ac is-arwyneb) eraill.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar holl gyrff cyhoeddus Cymru i 'ymgyrdd â datblygu cynaliadwy' er mwyn cyflawni'r nodau lles, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynol;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.



Gyda chyflwyniad y Ddeddf hon, sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fod yn gyfrifol am gynnal asesiadau o les ac am lunio Cynllun Lles ar gyfer Conwy.

### Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Mae Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn gofyn am systemau draenio cynaliadwy (SuDs) ym mhob datblygiad newydd gyda 2 eiddo neu fwy ac mae hefyd yn gofyn bod awdurdodau lleol yn dod yn Gyrrff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB). Mae Atodlen 3 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd gydymffurfio â'r Safonau Gorfodol Cenedlaethol ar gyfer SuDs. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn bod systemau draenio dŵr wyneb yn cael eu cymeradwyo gan SAB cyn y caiff unrhyw waith adeiladu gyda goblygiadau draenio gychwyn. Ar yr amod fod datblygiadau'n bodloni'r Safonau Cenedlaethol, byddai'n ofynnol i'r SAB fabwysiadu a chynnal unrhyw SuDs sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.

Er y bydd proses gymeradwyo SAB ar wahân i'r broses gynllunio, bydd yn gofyn am gydweithio helaeth ar draws gwasanaethau o'r cam cyn cyflwyno cais er mwyn sicrhau y caiff SuDs eu cynnwys fel rhan o bob datblygiad a'u bod yn cydymffurfio â'r safon genedlaethol. Ni fydd yn bosibl dechrau adeiladu ar safle datblygu hyd nes y bydd y datblygwr wedi cael cymeradwyaeth SAB. Gallai diffyg ymgynghori o'r cam cyn gwneud cais olygu y bydd yn rhaid rhoi stop ar adeiladu os nad yw'r draenio dŵr wyneb yn dilyn y gofynion cyfreithiol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 3.

### 3.2 Rhanbarthol – dim newidiadau i bolisi

### 3.3 Lleol – dim newidiadau i bolisi

## 4. Polisi CDLI – y Sefyllfa Bresennol

Mae llawer o bwysau ar yr amgylchedd ac nid yw hyn i gyd o ganlyniad i, nac o fewn rheolaeth y system gynllunio. Fodd bynnag, mae CDLI Conwy wedi perfformio'n dda ac yn well nag unrhyw gynllun blaenorol o ran diogelu ardaloedd gwarchoddedig a cheisio rhagor o welliannau bioamrywiaeth.

Mae Polisi NTE/2 Lletem Las a'r dynodiad yn eglur iawn gydag etifeddiaeth hanesyddol (cyn CDLI) o ddiogelu ac felly maent wedi'u hen sefydlu ac yn cael eu derbyn yn gyffredinol. Mae'r polisi wedi parhau i reoli datblygiad yn llym yn y meysydd hyn ond disgwylir y bydd pwysau ar yr ardaloedd hyn yn cynyddu ac y bydd angen adolygiad pellach fel rhan o'r cam asesu safle. Mewn mannau eraill bydd angen adolygu ffiniau aneddiadau am fân newidiadau a chywiriadau.

Un newid a ddigwyddodd ar ôl mabwysiadu'r CDLI sy'n berthnasol i bolisi NTE/3 Bioamrywiaeth oedd y Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013). Cynhyrchwyd hwn ar yr un pryd ag y cynhyrchodd Conwy ei CCA ei hun ar Fioamrywiaeth felly plethwyd y ddau ynghyd a mabwysiadwyd y ddau fel CCA lleol. Mae'r ddogfen yn rhoi arweiniad i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ac ymgeiswyr ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir o ran proses, data, adroddiadau ac ati wrth gyflwyno cais cynllunio lle mae effeithiau bioamrywiaeth posibl.

Mae rhai newidiadau i weithdrefnau mewnol yr ACLI yn cael eu hystyried i sicrhau bod y gwaith monitro'n cael ei gyflawni er mwyn cyrraedd y targedau hyn. Mae angen gweithredu mewn perthynas â chysylltiad cynyddol ecolegydd yr ACLI gyda cheisiadau perthnasol a gwell dealltwriaeth ar ran datblygwyr o'r rhesymau dros, a phwysigrwyd cynnwys gwelliannau amgylcheddol fel rhan o'r rhan fwyaf o ddatblygiadau.

Mae'r prif bwysau ar y dirwedd a Diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Polisi NTE/4) yn deillio o ddatblygiad safleoedd tyrbinau gwynt a solar ar raddfa fach, estyniadau i safleoedd carafanau sefydlog a strwythurau mawr eraill megis unedau dofednod. Bydd angen asesiadau tirwedd proffesiynol allweddol i sicrhau y caiff y CLG a nodweddion pwysig eraill yn y dirwedd eu diogelu.

Mae angen monitro datblygiad ym Mharth C TAN15 yn ofalus hefyd gan fod cefnogaeth wleidyddol dros archwilio opsiynau datblygu yn yr ardaloedd hyn.

Dim ond nifer fach o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd o fewn y Parth Arfordirol (polisi NTE/5) ac mae rhai o'r rhain o ganlyniad i ganiatâd a oedd yn bodoli eisoes. Mae'r polisi yn eglur ac yn gweithio'n dda wrth ystyried datblygiadau newydd o fewn y parth.

O ran polisiau Ynni Adnewyddadwy NTE/6 ac NTE/7, mae'r rhain wedi'u tynnu o'r adran Amgylchedd Naturiol ar y cam hwn a Phapur Testun newydd wedi'i greu i asesu'r maes.

### **Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).**

Mae'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd yn amlinellu'r dull arfaethedig o ymdrin ag Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) y CDLI, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu amcanion cymdeithasol,

economaidd ac amgylcheddol. Mae'r AC/AAS yn broses bwysig o ran adnabod meysydd o newid a mesurau lliniaru i sicrhau fod yn CDLIN yn gynaliadwy.

Mae amcanion y AC mewn perthynas â meysydd testun sy'n ymwneud â thirwedd wedi'u nodi isod:

<b>Nodweddion:</b>	<b>Amcan</b>
Tirwedd	Sicrhau bod tirweddau arbennig ac unigryw, lled-naturiol a hanesyddol a'u nodweddion penodol yn cael eu diogelu a'u gwella
Bioamrywiaeth	Cynnal a gwella'r amrywiaeth a'r digonedd o rywogaethau brodorol yn ardal y cynllun.
Dŵr	Atal llygredd yr holl gyrff dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear, a sicrhau bod datblygiad yn ystyried yr angen am ddefnyddio dŵr yn effeithlon. Mae'n rhaid i ddatblygiad hefyd fod wedi'i leoli fel nad yw'n cynyddu'r perygl o lifogydd.
Aer	Lleihau pob math o lygredd aer yn lleol ac yn fyd-eang yn gwella'r amgylchedd

Mae proses AC/AAS ar y gweill a fydd yn symud ymlaen ochr yn ochr â'r CDLID gydag ymgynghori'n digwydd ar bob cam.

## 5. Canfyddiadau AMB y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu

Mae pwyslais cryf ar ddiogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad yr arfordir a chefn gwlad sydd heb eu datblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd/cadwraeth, nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol, a sicrhau cadwraeth bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig. Mae'r polisiau o'u defnyddio gyda'i gilydd yn declyn i wireddu hyn drwy atal datblygiad amhriodol. Fodd bynnag mae angen mwy o eglurder a dylid mabwysiadu fformat ar gyfer dilyn cyngor PCC, yn enwedig o safbwynt targedau, gwella bioamrywiaeth a'r Seilwaith Gwyrdd.

Mae dosbarthiad tir amaethyddol hefyd yn faes a fydd angen mwy o sylw mewn polisi ac arweiniad drwy'r adolygiad.

## 6. Sylfaen Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddarau

- a. Asesiadau Lleiniau Gwyrdd  
Caiff hyn ei adolygu a gwneir asesiad yn seiliedig ar y safleoedd a roddir ymlaen yn sgil galwad am safleoedd. Bydd yr asesiad yn gynhennus ac yn cynnwys tir a oedd wedi'i ddiogelu eisoes ond oherwydd cyfyngiadau a welwyd mewn manau eraill efallai y bydd angen rhyddhau peth tir Lletem Werdd.
- b. Asesiad Hierarchaeth Anheddiad ac Asesiad Ffin Anheddiad  
Bydd hyn yn cael ei ddiweddarau er mwyn ystyried mân newidiadau ac ar gyfer y dyraniadau arfaethedig. Does dim amheuaeth y bydd angen rhai safleoedd maes glas, fodd bynnag bydd yn rhaid iddynt fynd drwy'r broses asesu lawn.
- c. Ardaloedd Tirwedd Arbennig  
Bydd angen asesu'r rhain ac efallai y bydd rhai newidiadau yn angenrheidiol o ganlyniad i estyniad trefol, ond byddant gan mwyaf yn cael eu hamddiffyn er mwyn diogelu'r tirweddau mwyaf gwerthfawr yn ardal y cynllun.

- d. AC/AAS  
Mae'r AAS yn ceisio safbwyntiau Cyrff Ymgynghorol AAS ar y fethodoleg arfaethedig a'r fframwaith asesu ar gyfer AC o Adolygiad CDLI Conwy sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn barn Awdurdodau Ymgynghori AAS ar benderfyniad sgrinio AAS drafft i fodloni gofynion trefniadol a chadarnhau bod angen cynnwys AAS yn y AC. Mae'r broses AC/AAS ar y gweill ac yn rhedeg ochr yn ochr â pharatoad y CDLIN.
- e. Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd  
Bydd angen adolygu'r adroddiad er mwyn asesu effeithiau cynefinoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd a bydd hyn yn ffurfio Papur Cefndir i'r CDLI.
- f. Protocol Asesu Risg ar y Cyd  
Mae'r ddogfen hon yn ffurfio cyd brotocol ar sut y dylid ymdrin â datblygiad yn ardal arfordirol Ddwyreiniol y Sir lle mae perygl o lifogydd. Bydd yn cael ei ddiwygio fel rhan o'r CDLIN er mwyn archwilio'r potensial i ddatblygu o fewn yr ardal sydd wedi'i heffeithio.
- g. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol  
Caiff hwn ei fonitro'n annibynnol ond mae'n cynnwys targedau y mae'r CDLI o gymorth i'w cyrraedd. Mae AMB cyson yn dynodi cynnydd.
- h. AMB ac Adolygiad y CDLI  
Mae hyn wedi'i wneud bedair gwaith ers mabwysiadu'r CDLI a bydd yr argymhellion sy'n deillio o hyn, wedi'u hasesu yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad, yn cael eu dwyn ymlaen drwy'r CDLN

## 7. Polisïau a Chynigion Defnydd Tir Posibl

Nid oes pryderon ynglŷn â gweithredu'r amcanion strategol. Fel y dywedwyd uchod, mae Ynni Adnewyddadwy'n awr yn cael ei drin mewn Papur Testun ar wahân gyda'r bwriad o wneud mân newidiadau.

Mae pwyslais cryf ar ddiogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad yr arfordir a chefn gwlad sydd heb eu datblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd/cadwraeth, nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol, a sicrhau cadwraeth bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig. Mae'r polisïau o'u defnyddio gyda'i gilydd yn declyn i wireddu hyn drwy atal datblygiad amhriodol.

Mae dosbarthiad tir amaethyddol hefyd yn faes a fydd angen mwy o sylw mewn polisi ac arweiniad drwy'r adolygiad.

## 8. Sylfaen Dystiolaeth bellach yn angenrheidiol

Er nad oes yr un o'r newidiadau arfaethedig yn mynd i wraidd y cynllun neu'r strategaeth, mae'r materion pwysicaf yn ymwneud yn bennaf ag eglurder y polisi a'r angen iddo gynnwys mwy er mwyn sicrhau cyswllt digonol â chynlluniau a strategaethau eraill.

Mae angen cynnwys polisi a gweithdrefn Seilwaith Gwyrdd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd i ddilyn ymlaen o'r arweiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru. Bydd i hyn fanteision ehangach a chysylltiadau â chynlluniau a strategaethau eraill perthnasol i'r dirwedd a theithio llesol.



Aliniad gyda Rhifyn Drafft 10 PCC: canllawiau Mannau Unigryw a Naturiol i ddarparu eglurder parthed cysylltiadau â Chynlluniau a Strategaethau eraill cysylltiedig.

### Materion a phroblemau allweddol

	Materion a phroblemau allweddol	Ffynhonnell
1.	Y gallu i gyflawni a'r angen i adolygu Lletemau Glas. Does dim amheuaeth y bydd hyn yn ddatleuol, ond mae'r angen cynyddol am dir i'w ddatblygu ar gyfer tai a chyflogaeth yn golygu fod yn rhaid i'r ACLI asesu'r holl dir yr awgrymir y gellir ei ddatblygu, ac mae hynny'n debygol o gynnwys tir sydd ar hyn o bryd yn rhan o Letemau Glas.	Adolygiad Lletemau Glas
2.	Er eglurder, mae'r adran ar Ynni Adnewyddadwy wedi'i wahanu oddi wrth yr adran ar yr Amgylchedd Naturiol ac wedi'i chynnwys fel Papur Testun ar wahân.	Adroddiad Monitro Blynyddol
3.	Diweddariad SAB i'r polisi.	Gweithredu atodlen 3 o'r Ddeddf.
4.	Defnyddio amodau a monitro drwy'r drefn gynllunio i gyflawni targedau bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd.	Adroddiad Monitro Blynyddol
5.	Mae angen cynnwys polisi a gweithdrefn Seilwaith Gwyrdd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd i ddilyn ymlaen o'r arweiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru.	Polisi Cynllunio Cymru
6.	Ailstrwythuro er mwyn dilyn y canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru (Mannau Unigryw a Naturiol) er eglurder. Bydd hynny'n cynnwys adrannau newydd ynglŷn â seinwedd, a gwell eglurder o ran ansawdd aer.	Polisi Cynllunio Cymru
7.	Er eglurder, caiff y cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu cryfhau gydol yr adran hon o'r Cynllun.	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

### 9. Casgliad

Mae'r Papur Testun yn ymdrin â'r materion allweddol a nodwyd a'r meysydd hynny y bydd angen eu newid yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. O ran Mannau Unigryw a Naturiol, bydd hyn yn cynnwys argymhellion ynghylch gwella a diogelu'r tirlun a bioamrywiaeth, gan ymgorffori canllawiau newydd ar Seilwaith Gwyrdd a draenio cynaliadwy. Bydd hyn yn golygu gweithio'n unol â'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am dwf cynaliadwy a dosbarthu safleoedd ar gyfer tai a chyflogaeth, ynghyd a manylion y polisiâu hynny y mae angen eu hadolygu yn sgil newidiadau yn y cyd-destun Ewropeaidd/cenedlaethol/lleol.

## Atodiad 1 – Polisiau cyfredol i'w hadolygu

### **POLISI STRATEGOL NTE/1 – YR AMGYLCHEDD NATURIOL**

Er mwyn ceisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach yn Ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn ceisio rheoleiddio datblygu i gadw, a lle bo modd, gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir Ardal y Cynllun. Cyflawnir hyn drwy:

- a) Ddiogelu bioamrywiaeth, daeareg, cynefinoedd, hanes a thirweddau Ardal y Cynllun drwy ddiogelu a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn unol â Pholisi DP/6 – ‘Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol’;
- b) Defnyddio Lletemau Glas a therfynau anheddiad i reoli hunaniaeth aneddiadau unigol, atal cyfuno a diogelu'r dirwedd sydd o gwmpas ardaloedd trefol yn unol â Pholisi NTE/2 - ‘Lletemau Glas a Diwallu Anghenion Datblygu'r Gymuned’;
- c) Lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol, gwella ansawdd tirweddau statudol ac anstatudol, ac ardaloedd gwerthfawr o safbwynt bioamrywiaeth yr effeithir arnynt, trwy gytundebau rheoli, cysylltedd cynefin, plannu tirweddau a chynnal gwell, yn unol â'r Polisiau Egwyddor Datblygu a Pholisi NTE/3 – ‘Bioamrywiaeth’;
- d) Cydweithio â datblygwyr i ddiogelu rhywogaethau a warchodir a gwella'u cynefinoedd yn unol â Pholisiau DP/6 a NTE/3;
- e) Ceisio sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o dir amaethyddol Gradd 2 a 3a yn cael ei golli ar gyfer datblygiadau newydd, yn enwedig yn nwyrain Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol, yn unol â Pholisi DP/6;
- f) Parchu, cadw neu wella cymeriad lleol a nodweddion unigryw pob Ardal Tirwedd Arbennig, yn unol â Pholisi NTE/4 – ‘Y Dirwedd a Diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig’ ac fel y dangosir ar Fap y Cynigion;
- g) Diogelu'r Parth Arfordirol yn unol â Pholisi NTE/5 – ‘Y Parth Arfordirol’;
- h) Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn datblygiadau yn unol â Pholisi NTE/6 – ‘Effeithlonrwydd Ynni a Thechnolegau Adnewyddadwy mewn Datblygiadau Newydd’;
- i) Atal, gostwng neu adfer pob ffurf ar lygredd gan gynnwys aer, golau, sŵn, pridd a dŵr, yn unol â Pholisi DP/6.

### **POLISI NTE/2 – LLETMAU GLAS A DIWALLU ANGHENION DATBLYGU'R GYMUNED**

1. I atal aneddiadau rhag ymglyfuno ac i gadw cymeriad agored yr ardal, dynodwyd y Lletemau Glas a ganlyn, fel y dangosir ar fap y cynigion:
  - a) Lletem Las 1 rhwng Dwygyfylchi a Phenmaenmawr
  - b) Lletem Las 2 rhwng Deganwy, Llandudno a Llanrhos
  - c) Lletem Las 3 rhwng Llandudno a Craigside
  - d) Lletem Las 4 rhwng Bae Penrhyn a Llandrillo-yn-Rhos

- e) Lletem Las 5 rhwng Mochdre a Bae Colwyn
- f) Lletem Las 6 rhwng Cyffordd Llandudno a Mochdre
- g) Lletem Las 7 rhwng Bryn y Maen a Bae Colwyn
- h) Lletem Las 8 rhwng Llanelian a Bae Colwyn
- i) Lletem Las 9 rhwng Coed Coch Road a Peulwys Lane
- j) Lletem Las 10 rhwng Hen Golwyn a Llysfaen
- k) Lletem Las 11 rhwng Rhyd y Foel, Llanddulas ac Abergele
- l) Lletem Las 12 rhwng Tywyn a Belgrano

### **POLISI NTE/3 – BIOAMRYWIAETH**

1. Dylai datblygiadau newydd anelu i gadw a, lle bo'n bosibl, gwella bioamrywiaeth trwy:
  - a) Leoli sensitif, gan osgoi safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u diogelu neu'r rhai o bwysigrwydd cenedlaethol neu leol.
  - b) Cynllunio a dylunio sensitif sy'n osgoi effeithiau neu'n lliniaru trwy raglen y cytunwyd arni o ran unrhyw effeithiau anffafriol ar fioamrywiaeth sydd wedi'u nodi.
  - c) Creu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirweddau naturiol yn cynnwys cysylltedd,
  - d) Integreiddio camau bioamrywiaeth i'r amgylchedd adeiledig,
  - e) Cyfrannu tuag at gyflawni targedau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Conwy (LBAP),
  - f) Darparu ar gyfer cytundeb rheoli gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau cadwraeth a dyfodol buddiannau bioamrywiaeth yn y tymor hir lle y bo'n berthnasol.
2. Dylai pob cynnig gynnwys Datganiad Bioamrywiaeth sy'n rhoi manylion am raddfa'r effaith ar fioamrywiaeth.
3. Bydd y Cyngor yn gwrthod cynigion fydd yn cael effaith negyddol ar Safle Ewropeaidd, rhywogaethau a warchodir neu sydd â blaenoriaeth neu eu cynefin, oni bai fod yr effaith honno wedi'i lliniaru'n ddigonol, a bod camau adfer a gwella priodol yn cael eu cynnig a'u sicrhau trwy amodau neu rwymedigaethau cynllunio.

### **POLISI NTE/4 – Y DIRWEDD A DIOGELU ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG**

1. Dangosir Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar y map cynigion ac maent wedi eu dynodi yn y lleoliadau canlynol:
  - a) Y Gogarth a Phenrhyn Creuddyn
  - b) Dyffryn Conwy
  - c) Cefnwlad Abergele
  - d) Dyffrynnoedd Elwy ac Aled

- e) Hiraethog
  - f) Cerrigydrudion a choridor yr A5
2. Er mwyn gwarchod nodweddion yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig bydd yn rhaid i geisiadau datblygu roi sylw dyledus i gymeriad pob ardal er mwyn lleihau eu heffaith gymaint â phosibl. Dim ond os gellir dangos bod modd integreiddio'r datblygiad yn foddhaol i'r dirwedd y caniateir datblygu. Mewn achosion priodol dylid cyflwyno Asesiad Effaith Weledol a Thirwedd i gyd-fynd â'r cais cynllunio er mwyn asesu effaith weledol y datblygiad a'i effaith ar y dirwedd.
  3. Bydd pob cais, o fewn a'r tu allan i Ardaloedd Tirwedd Arbennig (SLAs) yn cael eu hystyried yn erbyn yr Egwyddorion Datblygu a pholisïau eraill yn y Cynllun ar gyfer diogelu'r cymeriad amgylcheddol a'r dirwedd.

### **POLISI NTE/5 – YR ARDAL ARFORDIROL**

Diffiniwyd yr Ardal Arfordirol ar Fap y Cynigion. Caniateir datblygiad y tu allan i derfynau anheddiad yr Ardal Arfordirol os:

- a) Oes angen lleoliad arfordirol yn benodol ; ac os nad yw'n;
- b) Effeithio'n andwyol ar gymeriad agored yr ardal;
- c) Nid yw'n effeithio'n andwyol ar werth cadwraeth natur yr ardal gydag unrhyw effeithiau a nodwyd ac wedi'i liniaru;
- d) Lleihau gwerth twristiaeth neu gyfleusterau;
- e) Aflonyddu ar brosesau arfordirol naturiol;
- f) Amharu ar unrhyw adeiledd amddiffyn yr arfordir;
- g) Yn unol ag Egwyddorion Datblygu'r Cynllun.

### **POLISI NTE/8 – SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY**

1. Bydd yn ofynnol defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy lle bo hynny'n rhesymol ymarferol a bydd gwaredu ar y safle'n cael ei ffafrio lle gellir gwneud trefniadau boddhaol ar gyfer cynnal y systemau hynny yn yr hirdymor. Os na chynigir hyn, bydd angen i ddatblygwr gyfiawnhau bod y gollyngiad yn angenrheidiol ac wedi'i reoli'n ddigonol.
2. Yr ail ddull o ddraenio dŵr budr fydd yn cael ei ffafrio fydd:
  - a) Draenio i gorff dŵr wyneb (afon, llyn ac ati) yn amodol ar waith trin a gwanhau priodol;
  - b) Draenio i garthffos dŵr wyneb;
  - c) Draenio i garthffos wedi ei gyfuno.

3. Rhaid i'r datblygwyr ddangos nad yw'r opsiynau draenio sy'n cael eu ffafrio fwyaf yn bosibl cyn cynnig opsiynau llai cynaliadwy.

#### **POLISI NTE/9 – DRAENIO DŴR BUDR**

1. Dylid darparu draenio dŵr budr i garthffos lle bynnag y bo'n bosibl, yn unol â Safonau Adeiladu Gweinidogion Cymru sy'n weithredol o 1 Hydref 2012. Bydd datblygu safleoedd lle nad ydyw draenio i garthffos gyhoeddus yn ddichonadwy ond yn cael ei ganiatáu os ystyrir nad ydyw cyfleusterau amgen bwriedig yn ddigonol ac ni fyddent yn peri risg annerbyniol i ansawdd neu swm y dŵr ar y tir neu ar yr wyneb neu'n llygru cyrsiau dŵr neu safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth.
- 2 Rhaid i geisiadau datblygu, sy'n cynnwys mannau parcio i gerbydau ac arwynebeddau caled eraill a ddefnyddir gan gerbydau, gynnwys camau fel: gylïau caeedig a rhyng-gipwyr petrol / olew neu ddulliau addas eraill i reoli llygredd er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn cael ei lygru.

#### **POLISI NTE/10 – CADWRAETH DŴR**

Dylai pob datblygiad gynnwys camau cadw dŵr os yw hynny'n ymarferol a chydymffurfio â safonau BREEAM i hyrwyddo cadwraeth dŵr, mesurau effeithlonrwydd a defnyddio technegau SuDS. Dylid cyflwyno Strategaeth Cadwraeth Dŵr i gyd-fynd â cheisiadau datblygu mwy na 1,000m<sup>2</sup> neu sy'n cynnwys mwy na 10 annedd.